Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# DEDDF SAFONAU GOFAL 2000

# Cais i gofrestru Asiantaeth Cymorth Mabwysiadu

# Nodiadau i ymgeiswyr

## 1. Diben

1.1. Mae'r nodiadau hyn yn berthnasol i sefydliadau sy'n dymuno cyflwyno cais i redeg Asiantaeth Cymorth Mabwysiadu. Yng Nghymru, dim ond cyrff corfforaethol sy'n gorfod cofrestru i fod yn Asiantaeth Cymorth Mabwysiadu.

1.2. Rydym yn gobeithio y bydd y nodiadau hyn yn eich helpu chi i:

- ddeall yr hyn y mae angen i chi feddwl amdano cyn cyflwyno cais i gofrestru, a
- dechrau deall yr hyn y bwriedir i'r Rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ei gyflawni a'r rhan y maent yn ei chwarae yn y broses gofrestru.

1.3. Ar ôl i chi ddarllen y nodiadau hyn a'r dogfennau eraill a ddarperir, rydym yn gobeithio y bydd gennych chi syniad da am:

- yr hyn y mae angen i chi ei wneud cyn cyflwyno eich cais,
- yr hyn y byddwn ni yn ei wneud ar ôl derbyn eich cais,
- a'r hyn yr ydym yn chwilio amdano.

1.4. Mae angen llawer iawn o sgil, sensitifrwydd ac arbenigedd i ddarparu gwasanaethau i bobl fel rhan o'r broses fabwysiadu. Mae'r gwaith a wneir yn aml yn anodd, ond hefyd yn rhoi llawer o foddhad ac yn ymwneud â phenderfyniadau pwysig a allai newid bywydau. Mae'n hanfodol bod y bobl sy'n cyflwyno'r gwasanaethau hyn yn broffesiynol, a bod ganddynt y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i gefnogi plant ac oedolion ag anghenion yn ymwneud â mabwysiadu. Mae angen cymryd gofal mawr i wneud yn siŵr bod popeth fel y dylai fod cyn cofrestru asiantaeth. Mae'n rhaid cwblhau'r broses gofrestru i'r diwedd cyn i asiantaeth gael dechrau gweithredu.

1.5. Mae'r broses gofrestru o anghenraid yn fanwl ac yn ymwthgar. O ganlyniad, rydym eisiau i chi wybod y bydd y wybodaeth yr ydym yn ei chasglu a'i defnyddio i

benderfynu ar eich cais yn cael ei thrin yn ofalus ac yn cael ei chadw'n gyfrinachol bob amser. Rydym hefyd eisiau i chi wybod y bydd arolygwyr yn gweithio gyda chi i wneud yn siŵr bod y broses gofrestru mor rhwydd a chyflym â phosibl. Y rhan bwysicaf o'n gwaith yw gofalu bod y bobl sy'n rhan o'r broses fabwysiadu yn derbyn gwasanaeth o safon uchel. Trwy roi sylwadau ar eich cynigion, ein nod yw eich helpu chi i fodloni a rhagori ar ofynion y Ddeddf, y Rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

1.6. Mae angen i'r ymgeisydd a'r rheoleiddiwr wneud llawer iawn o waith er mwyn cofrestru asiantaeth. Trwy fynd ati mewn modd priodol, gellir helpu i sefydlu sail gadarn ar gyfer perthynas reoleiddio tymor hwy.

## 2. **Pam y mae angen i mi gofrestru?**

2.1. Mae unrhyw un sy'n rhedeg neu reoli Asiantaeth Cymorth Mabwysiadu yng Nghymru yn cael ei reoleiddio dan y gyfraith. Diben y gwaith rheoleiddio hwn yw:

- sicrhau bod sefydliadau ac unigolion yn addas i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn,
- cadarnhau bod ganddynt y wybodaeth a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer darparu a chynnal gwasanaeth o ansawdd da,
- sicrhau y byddant yn penodi a chefnogi staff â'r cymwysterau, profiad, gwybodaeth a sgiliau priodol ar gyfer bodloni anghenion pobl a fydd yn defnyddio'r gwasanaeth y bwriedir ei ddarparu,
- cadarnhau bod unrhyw safle a ddefnyddir fel swyddfa yn briodol i'r diben hwnnw ac yn ddiogel
- sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda, bod y cofnodion y mae'n rhaid eu rhaid cadw yn foddhaol ac y byddant yn ein helpu ni yn ddiweddarach i gadarnhau ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

2.2. Mae'r adrannau canlynol yn ymdrin â phob un o'r pwyntiau hyn yn eu tro.

## 3. **Sut yr ydym yn mynd ati i benderfynu pa un a yw'r unigolyn cyfrifol a'r staff allweddol yn addas?**

3.1. Byddwn yn gwneud hyn trwy'r wybodaeth a gesglir o'r ffurflen gais a phapurau eraill yr ydym yn gofyn i chi eu llenwi ar yr un pryd.

- Byddwn yn archwilio tystysgrif geni, pasbort a thystysgrif priodas yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr cofrestredig, ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill, i gadarnhau pwy ydynt.
- Byddwn yn edrych ar eu cefndir, gan gynnal archwiliadau â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac edrych ar dystlythyrau personol a phroffesiynol, lle y bo angen, gan gynnwys tystlythyrau ariannol ar gyfer yr ymgeisydd /sefydliad.
- Byddwn yn ymchwilio i'w hiechyd corfforol ac emosiynol. Byddwn yn anfon copi o'r hanes meddygol y byddant yn ei ddarparu ar ein cyfer at eu meddyg

ac unrhyw arbenigwr/wyr sydd wedi darparu triniaeth iddynt, ac yn gofyn am eu sylwadau.

-

Mae **Gorchymyn (Eithriadau) 1975 (fel y'i diwygiwyd) Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974** yn nodi nad oes rhaid i bobl, at y rhan fwyaf o ddibenion, ddatgan eu heuogfarnau ar ôl cyfnod penodol.

Dylech sylwi, fodd bynnag, nad yw'r cais hwn i gofrestru yn cynnwys gofyniad i ddatgelu troseddau. Bydd archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn sicrhau bod pob trosedd berthnasol yn cael ei chynnwys yn y dystysgrif a gyhoeddir ganddo. Mae mwy o wybodaeth am hepgor hen a mân droseddau ar gael gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

3.2. Os oes gan yr unigolyn cyfrifol neu'r rheolwr arfaethedig unrhyw euogfarnau, bydd yn rhaid i ni benderfynu a oes gan hyn oblygiadau i gais yr asiantaeth. Mae'n bosibl cymeradwyo ceisiadau dan y sefyllfa hon.

3.3. Os yw rhywun yn bod yn anonest er mwyn cael ei gofrestru, mae'n bosibl na fydd yn cael ei ystyried yn unigolyn addas mwyach

3.4. Byddwn yn cadw unrhyw wybodaeth bersonol yn ffeiliau amdanoch, gan gynnwys archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, gwybodaeth feddygol, tystlythyrau personol/proffesiynol a thystlythyrau ariannol, am gyhyd ag y bydd ei angen yn unig, ac ni chaiff ei chadw am gyfnod amhenodol.

## 4. Sut y byddwn yn archwilio eich gwybodaeth a'ch profiad?

4.1. Mae'n rhaid i ddarparwyr cofrestredig feddu ar y profiad, cymwysterau, gwybodaeth a sgiliau angenrheidiol i gyflawni'r dyletswyddau sy'n ofynnol ganddynt. Byddwn yn ein sicrhau ein hunain eich bod yn bodloni'r safonau hyn trwy'r wybodaeth a ddarperir yn y ddwy ran o'ch ffurflen gais ac mewn cyfweliad ffurfiol.

- Byddwn yn gofyn i chi ddarparu cofnod llawn o'r hyn yr ydych wedi'i wneud ers gadael yr ysgol. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw gyfnodau astudio, gwaith di-dâl, ynghyd â chymwysterau yr ydych wedi'u dilyn.
- Byddwn yn cysylltu â chyflogwyr blaenorol yn ôl yr angen, hyd yn oed os nad ydych yn enwi'r rhain fel canolwyr, er mwyn cadarnhau pa sgiliau a phrofiad perthnasol sydd gennych.
- Byddwn yn edrych ar unrhyw gyrsiau hyfforddi yr ydych wedi'u dilyn, a phan fo angen, byddwn yn edrych ar fanylion yr hyn a astudiwyd. Pan fyddwch wedi ennill cymwysterau, byddwn eisiau gweld y tystysgrifau, ac fe allem gadarnhau manylion â'r cyrff dyfarnu perthnasol.
- Bydd peth o'r gwaith archwilio hwn yn cael ei wneud trwy gynnal cyfweliad, a enwir y cyfweliad 'person addas'. Bydd gofyn i'r rheolwr cofrestredig arfaethedig ac – wrth gofrestru am y tro cyntaf – yr unigolyn cyfrifol fynd i'r

cyfweliad. Defnyddir y cyfweliad hwn i egluro unrhyw faterion sydd wedi codi yn ystod y broses gofrestru ac i brofi agweddau ar eich gwybodaeth pan fo angen.

## 5. Sut y byddwn yn sicrhau eich bod yn cyflogi ac yn cefnogi staff â'r cymwysterau, profiad, gwybodaeth a sgiliau priodol?

5.1. Bydd ystod a niferoedd y staff, ynghyd â'u cymwysterau, profiad, gwybodaeth a sgiliau perthnasol, yn dibynnu ar natur a maint eich asiantaeth a'r amrywiaeth o wasanaethau yr ydych yn bwriadu eu darparu. Mae'r Safonau yn nodi, mewn termau cyffredinol, beth y mae'n rhaid i'r rhain fod. Bydd angen i chi drafod y cynigion staffio penodol ar gyfer eich asiantaeth gyda'r arolygydd.

5.2. Bydd rheolwr eich asiantaeth yn destun proses addasrwydd debyg iawn i'r hyn a amlinellir yn adran 3, gan gynnwys cyfweliad.

## 6. Sut y byddwn yn mynd ati i archwilio'r safle?

6.1. Trwy weithio o'r wybodaeth a ddarparwyd yn y ffurflen gais ac ymweld â'r adeilad yr ydych yn bwriadu ei ddefnyddio:

- Byddwn yn cadarnhau bod gennych chi ddigon o reolaeth dros y safle yr ydych yn bwriadu ei ddefnyddio, er mwyn sicrhau y gall y staff a phobl eraill sydd â diddordeb dilys fynd i mewn yn ystod oriau swyddfa cyffredin.
- Byddwn yn cadarnhau bod y safle yn ddiogel, ynghyd ag unrhyw gofnodion a gedwir gennych – pa un a ydynt ar system TG neu'n cael eu cadw fel arall.
- Byddwn yn cadarnhau bod y safle yn cynnwys yr offer a'r adnoddau priodol.
- Byddwn yn cadarnhau bod gennych chi yswiriant digonol ar gyfer y safle a'r cynnwys arfaethedig.

## 7. Sut y byddwn yn archwilio eich ffordd arfaethedig o weithio?

7.1. Byddwn yn edrych ar Ran 2 o'r ffurflen gais sy'n dweud wrthym sut yr ydych yn bwriadu bodloni'r Rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Byddwn yn defnyddio'r cyfweliad/cyfweliadau ffurfiol "person addas" i drafod meysydd lle'r ydym yn teimlo nad oes gennym ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad.

- Byddwn yn edrych ar eich dull arfaethedig o fodloni pob un o'r Rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol cysylltiedig.
- Byddwn yn archwilio eich cynigion er mwyn asesu pa un a yw'r wybodaeth a ddarparwyd gennych yn ategu eich Datganiad o Ddiben yn ddigonol.
- Byddwn yn edrych yn fanwl ar sut yr ydych yn bwriadu asesu, dethol a pharatoi staff, gan gynnwys y cofnodion yr ydych yn bwriadu eu cadw.
- Byddwn yn edrych ar y ffordd yr ydych yn bwriadu asesu a chynllunio gwasanaethau ar gyfer unigolion.

- Byddwn yn archwilio'r dogfennau a'r wybodaeth yr ydych yn bwriadu eu darparu ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth a sut yr ydych yn bwriadu eu defnyddio.
- Byddwn yn asesu'n ofalus addasrwydd y polisïau yr ydych yn bwriadu eu defnyddio.
- Byddwn yn ystyried sut yr ydych yn bwriadu cadw'r ystod o gofnodion y mae'n ofynnol i chi eu cadw.
- Byddwn yn dymuno deall sut y byddwch yn rheoli, monitro a chadw golwg ar ansawdd pob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir gennych.

## 8. Y camau nesaf

8.1. Mae'n bwysig i chi fod yn gyfarwydd â'r Rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol perthnasol ar gyfer y gwasanaeth yr ydych yn bwriadu ei ddarparu. Mae Rheoliadau Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2005 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol cysylltiedig ar gael ar wefan AGC yn: www.AGC.org.uk .

8.2. Ar ôl i chi wneud hyn, rydym yn gobeithio y bydd strwythur, diben a gofynion y ffurflenni cais a atodir yn dechrau dod yn glir. Mae'r pecyn cais yn cynnwys y canlynol, yn ogystal â'r canllawiau hyn:

Rhan 1
Rhan 2
Cais y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
Datganiad meddygol
Ymholiad ariannol
Hysbyseb o brosesu teg

8.3. Gan mai sefydliad sy'n cyflwyno'r cais, bydd addasrwydd yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr yn cael ei brofi, a bydd angen gwybodaeth ychwanegol am y sefydliad.

8.4. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ar yr adeg hon ynglŷn â'r gofynion a'r broses, mae croeso i chi eu trafod gyda ni. Fodd bynnag, dylech nodi mai chi eich hun ddylai baratoi a strwythuro eich cais, a dylech fod yn barod i gael cyngor gan eich ffynonellau annibynnol eich hun os bydd angen. Mater i chi yw dangos y gallwch fodloni – a pharhau i fodloni - gofynion y Rheoliadau a'r Safonau. Mae'r baich arnoch chi i ddarparu tystiolaeth at y diben hwn. Byddai'n amhriodol i'ch rheoleiddiwr arfaethedig gymryd rhan mewn rhoi cyngor ar natur fanwl y penderfyniadau, dewisiadau a risgiau ynglŷn â'ch busnes.

## 9. Casgliad

9.1. Mae'r broses yn gymhleth, yn feichus ac yn fanwl. Gall fod angen treulio cryn amser ar y cychwyn er mwyn paratoi cais boddhaol, ac mae'n anorfod y bydd rhywfaint o gostau. Fodd bynnag, rydym ni o'r farn fod y broses o baratoi i gofrestru,

a chael eich cofrestru, yn darparu cyfle i osod sail gadarn ar gyfer y berthynas reoleiddio yn y dyfodol rhwng darparwyr cofrestredig ac AGC.

9.2. Byddwn yn ymdrechu i wneud popeth y gallwn i sicrhau bod y broses a'r gofynion yn eglur, a bod sail y broses gofrestru yn dryloyw. Gobeithio y byddwch yn canfod mai felly y bydd hi, ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi.